# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 28 Tachwedd 2016

Amser: 14.00 - 16.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3903

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Jeremy Parr, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Jean-Francois Dulong, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas<br>Andy Phillips |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Richard Johnson (Dirprwy Glerc) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod PDF (935KB) Gweld fel HTML (204KB)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion a nodwyd y papurau.

2.2 Cytunodd yr Aelodau y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch y bwriad o gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion a gafodd eu gwrthod yn Adolygiad Mark. Yn sgil Argymhelliad 6, bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at AGIC yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd ar bractisau meddygon teulu yn ystod cyfnod penodol er mwyn i'r Pwyllgor allu penderfynu a yw'r gyllid a roddir yn ddigonol.

### 2.1 Gofal heb ei drefnu: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Gymru (21 Tachwedd 2016)

### 2.2 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (16 Tachwedd 2016)

### 2.3 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Gymru (21 Tachwedd 2016)

## 3 Cyflogau Uwch-reolwyr: y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

3.1 Nododd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a chytunwyd eu bod yn fodlon â'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar y materion, ac na ofynnir am ddiweddariadau pellach. Fodd bynnag, gwnaeth yr Aelodau gais bod y Pwyllgor yn derbyn copi o Adroddiad y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ar Dryloywder Tâl uwch aelodau staff, pan gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni

## 4 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Jeremy Parr, Rheolwr Llifogydd a Risg Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru, a

Jean-Francois Dulong, Swyddog Llifogydd a Dŵr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn trafod rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Blaenraglen waith – Gwanwyn 2017

7.1 Trafododd yr Aelodau y drafft o'r flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn.

7.2 Cytunodd yr Aelodau ar amlinelliad y flaenraglen waith, a chytunwyd i ymweld â Senedd yr Alban fel rhan o'r ymchwiliad i drefn reoleiddio cymdeithasau tai.

## 8 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Trafododd yr Aelodau'r adroddiad drafft, a gofynnwyd am nifer o argymhellion.

8.2 Bydd adroddiad drafft diwygiedig yn cael ei anfon at yr Aelodau i gytuno arno.